**Gwybodaeth i Gleifion**
**Canser yr Ysgyfaint**

**Adran Anadlol Ysbyty Sant Gwynllyw/Ysbyty Brenhinol Gwent**

Mae'r daflen hon wedi'i chreu i'ch helpu chi i ddeall eich diagnosis ac i ateb rhai o'r cwestiynau cyffredin ynglŷn â chanser yr ysgyfaint.

## Beth yw canser?

Mae canser yn glefyd sy'n cael ei nodweddu gan dwf afreoledig celloedd annormal. Gall unrhyw dwf malaen neu dyfiant a achosir gan ymraniad celloedd annormal ac afreoledig arwain at dwf neu dyfiant sy'n heidio a dinistrio'r feinwe o'u cwmpas, a gall hefyd ledaenu i rannau eraill o'r corff.

## Beth yw canser yr ysgyfaint?

Mae canser yr ysgyfaint yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio tyfiant o gelloedd annormal a all effeithio ar y llwybrau anadlu, y sachau anadlu neu'r ddau. Mae dau ysgyfant yn eich brest, un ar bob ochr. Yr ysgyfaint yw'r organau yn eich brest sy'n dod ag ocsigen i'ch corff.

Ceir gwahanol fathau o ganser yr ysgyfaint. Y rhain yw:-

- Canser yr ysgyfaint o fath celloedd bach
- Canser yr ysgyfaint o fath celloedd mwy (dyma'r math mwyaf cyffredin)
- Adenocarcinoma
- Squamous carcinoma

## A all canser yr ysgyfaint ledaenu?

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, gall canser yr ysgyfaint ledaenu i rannau eraill o'ch corff. Bydd angen ymchwilio ymhellach weithiau i weld a yw'r canser wedi lledaenu.

Bydd y canlyniadau hyn yn helpu'r meddygon i benderfynu ar y driniaeth orau ar eich cyfer. Bydd y canlyniadau'n cymryd sawl diwrnod ac mae'r cyfnod aros hwn yn amser pryderus iawn i chi. Gallai fod o gymorth pe baech yn trafod pethau gyda'ch perthnasau, ffrind agos neu nyrsys canser yr ysgyfaint.

**Pa fath o driniaeth sydd ar gael ar gyfer canser yr ysgyfaint?**
Mae hyn yn dibynnu ar y math o ganser yr ysgyfaint sydd gennych chi, ei leoliad ac a ydych yn dioddef o unrhyw glefydau eraill.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae tri math o driniaeth.

Y dull safonol o drin canser yr ysgyfaint yw llawdriniaeth, cemotherapi, a radiotherapi, y gellir eu defnyddio ar eu pennau eu hunain neu mewn amryw gyfuniadau.

Cynhelir **llawdriniaeth,** os yw'n briodol, yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd.

Rhoddir **cemotherapi**, sef triniaeth gyffuriau, yn Ysbyty Brenhinol Gwent neu Ganolfan Canser Felindre.
Canolfan Canser Felindre.

Cynhelir **radiotherapi** – triniaeth pelydr-x, yn Ysbyty Felindre, Caerdydd. Defnyddir radiotherapi hefyd ar adegau i helpu symptomau megis
peswch trafferthus, prinder anadl, poen neu os ydych wedi peswch gwaed i fyny.

Gofynnir i rai cleifion gymryd rhan mewn treialon clinigol (neu astudiaethau ymchwil) a grëir i werthuso dulliau newydd o driniaeth.

**Sut byddaf yn teimlo?**
Gall diagnosis canser yr ysgyfaint fod yn drallodus iawn i chi, ac i'r rheiny o'ch amgylch.  Bydd llawer o wahanol emosiynau yn codi a all newid eich tymer.  Mae'r ymateb yn amrywio o un person i'r llall.

Gallwch deimlo mewn sioc, bod mewn ofn, bod yn ddig, neu efallai na fyddwch yn credu'r hyn a ddywedwyd wrthoch chi am eich diagnosis. Mae'r teimladau hyn yn eithaf arferol, ac nid oes ffordd gywir nac anghywir o deimlo.

**Sut bydd hyn yn effeithio ar fy nheulu?**
Efallai byddan nhw mewn sioc, yn ofidus wrth glywed y newyddion, a gall y berthynas newid weithiau.  Gall y rheiny sydd agosaf atoch fod yn ofni i siarad am ganser a theimladau isel, efallai bydd pobl yn bigog ac mewn hwyliau drwg, gan ychwanegu at y straen yr ydych chi i gyd yn ei deimlo.

Pan fydd plant ac wyrion yn gysylltiedig, y gorau fyddai cyflwyno’r wybodaeth yn raddol iddynt. Bydd pawb yn dymuno gofyn cwestiynau a’r peth gorau yw bod yn onest. Bydd y rhai sydd agosaf atoch yn ymateb i sut rydych chi’n ymdopi. Peidiwch â gwrthod y cyfle i chi’ch hun i fynegi sut rydych chi'n teimlo. Cofiwch fod cymorth ar gael i chi.

**A fydda' i mewn poen?**

Dyma gwestiwn cyffredin y mae pobl â chanser yn ei ofyn. Fydd un o bob tri chlaf yn gwbl rydd o boen.

Os oes poen yn bresennol, mae’n hawdd ei drin gan amlaf. Mae’n bwysig dweud wrth eich meddyg neu eich nyrs os ydych chi mewn poen, cofiwch y bydd yn debyg eich bod yr u mor debygol o ddioddef o ben tost, poen yn y cyhyrau, ac ati, ag yr oeddech cyn cael y diagnosis.

**A fydda' i'n gwella?**

Mae hwn yn gwestiwn hynod anodd ei ateb. Mae’n dibynnu ar lawer o ffactorau, megis eich iechyd yn gyffredinol, y math o ganser yr ysgyfaint sydd gennych, y graddau y mae’r canser wedi lledaenu ac os ydych yn cael triniaeth, pa mor dda y mae eich corff yn ymateb iddi.

Cynhelir gwaith ymchwil meddygol yn yr ysbyty. Caiff unrhyw waith ymchwil sy’n addas ar eich cyfer ei drafod yn eich apwyntiadau clinig.

**Pwy yw'r bobl yn nhîm canser yr ysgyfaint y byddwch efallai'n cwrdd â hwy neu'n siarad â hwy?**

| | |
|---|---|
| Dr Ian Williamson | Meddyg Ymgynghorol Anadlol |
| Dr Alina Ionescu | Meddyg Ymgynghorol Anadlol |
| Dr Mick Button | Oncolegydd Ymgynghorol |
| Dr Paul Shaw | Oncolegydd Ymgynghorol |
| Dr Mitali Patel | Meddyg Ymgynghorol Gofal Lliniarol |
| Mr. Ainis Pirtnieks | Llawfeddyg Thorasig Ymgynghorol |

**Nyrsys Clinigol Arbenigol**
Helen Howison, Sam Williams a Rebecca Weston-Thomas
Nyrsys Arbenigol Canser yr Ysgyfaint
01633 656149 / 238449

Tracey Davies
Cynorthwyydd Gweinyddol Nyrsys Canser yr Ysgyfaint
01633 656149

Caroline Dalton
Cydlynydd Clinig
01633 656227

Nyrsys Ymchwil
01633 238536

## Gwybodaeth Ddefnyddiol Arall

Gweithwyr Allweddol:- ..... Helen Howison, Sam Williams,
Rebecca Weston-Thomas 01633 656149

..........................................................................................

Eich Meddyg Teulu:- ............................................................

Meddyg Allan-o-Oriau :- ......................................................

Nyrs Gymunedol:-................................................................

Nyrs Gofal Lliniarol Cymunedol:-...............................................

## Nodiadau/Sylwadau Personol

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English".**